

## Hawlio treth yn ôl ar eich ffi gofrestru.

### Gostyngiad treth ar gyfer ffioedd proffesiynol a thanysgrifiadau.

Os ydych yn drethdalwr yn y DU, gallwch hawlio rhyddhad treth ar eich ffioedd cofrestru.

Mae hyn yn golygu, bod unigolion cofrestredig sy'n talu treth ar y gyfradd dreth sylfaenol (20 y cant), bydd y ffi adnewyddu flynyddol o £50 yn gostwng i £40 ar ôl rhyddhad treth £10. Mae'r rhai sydd ar y gyfradd dreth uwch hefyd yn gymwys ar gyfer gostyngiad:

- Gallwch hawlio rhyddhad treth drwy'r HMRC. Nid yw'n broses yr ydym yn gallu gwneud i chi.
- Nid yw trethdalwyr tu allan i'r DU yn gymwys i gael rhyddhad treth.
- Gallwch ddim ond hawlio am y ffioedd yr ydych wedi talu eich hun.

Mae tair ffordd wahanol o hawlio rhyddhad treth ar eich ffioedd cofrestru.

1. Os nad ydych yn cwblhau ffurflen dreth, gallwch hawlio rhyddhad treth gan ddefnyddio ffurflen P87: Gostyngiad treth ar gyfer treuliau cyflogaeth, sydd ar gael i'w lawr lwytho yma <http://www.hmrc.gov.uk/forms/p87form.htm> (gwefan Saesneg yn unig)
2. Os byddwch yn llenwi ffurflen hunan-asesu treth, gallwch hawlio rhyddhad treth o'ch ffioedd cofrestru ar dudalen cyflogaeth y ffurflen.
3. Gallwch ffonio HRMC a gofyn am ostyngiad ar eich ffioedd. Mae'r manylion cyswllt i'w cael ar wefan [HMRC](http://www.hmrc.gov.uk) .

Mae gan wefan HMRC manylion pellach am gynnwys treuliau a ganiateir, cymhwyster ac yn hawlio treth yn ôl ar gyfer y blynyddoedd diwethaf: <http://www.hmrc.gov.uk/incometax/relief-subs.htm>

Sylwari bod y ffi lawn yn daladwy i Gofal Cymdeithasol Cymru ym mhob achos. Rhaid ceisio am ryddhad treth gan yr HRMC ac ni ellir eu didynnu yn uniongyrchol o ffioedd cofrestru a dalwyd i Gofal Cymdeithasol Cymru. Gan bod Cyngor Gofal Cymru wedi newid i Gofal Cymdeithasol Cymru defnyddiwch y ddau enw wrth neud eich hawliad.